


# Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion



#cyfeillionyghanwyn  
@Professor\_Plant  
@Amgueddfa\_Learn

Arolwg newid hinsawdd yw Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion, a chaiff ei redeg gan Amgueddfa Cymru.

Mae gwyddonwyr ifanc o bob cwr o'r DU yn plannu bylbiau ar dir yr ysgol ac yn cofnodi eu twf er mwyn astudio newid hinsawdd. Maen nhw'n cadw cofnodion tywydd a dyddiadau blodeuo'r bylbiau i weld sut mae newidiadau yn y tywydd yn effeithio ar flodau cennin Pedr a chrocws. Mae'r project wedi bod yn mynd yng Nghymru ers 2005 ac ar draws y DU ers 2012.

Eleni byddwn yn gwahodd ysgolion i astudio'r data hwn eu hunain. Byddwn yn rhannu set lawn o ddata a chwisiau rhifedd bychan sy'n canolbwyntio ar ddeall data o graffiau.

Dyma animeiddiad i gyflwyno'r arolwg :  
<https://www.youtube.com/watch?v=5lqI280xSk4> (2 funud)



# Cwisiau



## Cwis 1. Tymheredd, glawiad a heulwen ar draws y DU yn 2020.

Astudiwch graffiau bar i ganfod tueddiadau cenedlaethol mewn tymheredd, glawiad a heulwen.

- Pa wlad oedd y cynhesaf/oeraf?
- Pa wlad welodd y mwyaf o heulwen?
- Pa wlad gafodd y mwyaf o law?
- Hefyd, cwestiynau gwybodaeth gyffredinol am flodau a bylbiau.

Dolen: <https://kahoot.it/challenge/002935468>

PIN y gêm: 002935468

## Cwis 2. Glawiad ar draws y DU yn 2020.

Astudiwch graffiau bar i ganfod tueddiadau cenedlaethol o ran glawiad.

- Astudiwch yr unedau yn ofalus i ganfod y glawiad cyfartalog misol ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Trefnwch y gwledydd o'r mwyaf i'r lleiaf o law.
- Cwestiynau gwybodaeth gyffredinol ynghylch mesur glawiad.

Dolen: <https://kahoot.it/challenge/003136986>

PIN y gêm: 003136986

## Cwis 3. Tymereddau ar draws y DU yn 2020.

Astudiwch y graffiau bar a llinell i ganfod lle oedd y gwledydd cynhesaf ac oeraf yn 2020.

- Cwestiwn gwybodaeth gyffredinol am unedau tymheredd.
- Astudiwch graffiau bar i ganfod y tymheredd cyfartalog ar gyfer Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Trefnwch y gwledydd o'r cynhesaf i'r oeraf.
- Astudiwch y graffiau llinell i ateb cwestiynau 'cywir neu anghywir' am dymereddau misol.

Dolen: <https://kahoot.it/challenge/006523694>

PIN y gêm: 006523694

## Cwis 4. Cymharu cofnodion tywydd 2020 gyda blynyddoedd blaenorol.

Astudiwch graffiau llinell a bar i chwilio am dueddiadau. Nodwch dymhereddau sydd ddim yn ffitio'r tueddiadau.

- Astudiwch graffiau llinell i ddewis tymereddau cyfartalog misol uchel ac isel.
- Astudiwch graffiau llinell i ddewis tymereddau misol cyfartalog uchel ac isel.
- Astudiwch graffiau bar i drefnu blynyddoedd o'r cynhesaf i'r oeraf.
- Astudiwch graffiau bar i weld pa flynyddoedd gafodd y mwyaf a'r lleiaf o lawiad.
- Astudiwch graffiau llinell i weld pa flynyddoedd gafodd y mwyaf a lleiaf o heulwen.

Dolen: <https://kahoot.it/challenge/00687498>

PIN y gêm: 00687498



# Adnoddau



Mae'r adnoddau yma ar gael ar wefan Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion: <https://amgueddfa.cymru/bylbiau-gwanwyn/>

## Adroddiad 2020.

Mae'r adroddiad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion ar gael mewn tair rhan. Mae'r adnoddau yma yn edrych ar y data tywydd a data blodau a gasglwyd gan ysgolion.

- [Cyflwyniad Adroddiad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion 2020](#)
- [Adroddiad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion y DU 2020](#)
- [Adroddiad Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion Cymru 2020](#)

## Nawr lawrlwythwch y daenlen ac astudio'r data eich hunain!

Lawrlwythwch daenlenni Excel o'r wefan i archwilio data a chreu graffiau.


Mae'r data blodau ar gyfer pob blwyddyn ar gael ar y wefan. Fedr wch archwilio'r data yma a chreu graffiau eich hun!

[Data Crocws](#)  
[Data Cennin Pedr](#)

# Chwiliwch am dueddiadau mewn gwahanol lefydd.

- [Cliciwch yma](#) i weld map yn dangos lleoliadau ysgolion. Fedrwnch ddefnyddio'r map i ddewis ysgolion o wahanol lefydd.
- [Cliciwch yma](#) i weld data tywydd ar gyfer ysgolion unigol. Fedrwnch ddewis unrhyw ysgol o'r rhestr ar dde'r dudalen.
- Fedrwnch gymharu data tywydd o ysgolion gwahanol. Fedrwnch hefyd cymharu data tywydd o flynyddoedd gwahanol.

## Pob Iwc Cyfeillion y Gwanwyn!



Edina  
Trust

national  
museum  
wales  
cymru  
amgueddfa

